



UCL

Ein Cyfnod.....



iCST (Individual Cognitive Stimulation Therapy)
Therapi Ysgogiad Gwybyddol Unigol
Llawlyfr ar gyfer Gofalwyr

Cynnwys

Croeso i 'Ein Cyfnod': Yr Athro Bob Woods	3
Egwyddorion Allweddol iCST	4
Sut i ddefnyddio'r llawlyfr	7
Ymgymryd â'r Gweithgareddau: Canllawiau Byr	8
Dechrau arni	9
Dyddiadur Gofalwyr	10
Cwestiynau cyffredin	11 - 12
RHAN 1 Sesiynau 1 - 12	14 - 27
Fy Mywyd, Materion Cyfoes, Bwyd, Bod yn Greadigol, Gemau Rhif a Gemau Cwis.	
Y Sesiynau Nesaf	28
RHAN 2: Sesiynau 13 - 24	28 - 41
Seiniau, Gemau Corfforol, Categorioidio Gwrthrychau, Trysorau Cartref, Awgrymiadau Defnyddiol & Cardiau Meddwl.	
RHAN 3: Sesiynau 25 - 36	42 - 55
Clipiau Gweledol, Trafod Celf, Wynebau/Golygfeydd, Gemau Geiriau, Sloganau a Geiriau Cysylltiedig.	
RHAN 4: Sesiynau 37 - 48	56 - 69
Cyfeiriannu, Defnyddio Arian, Gemau Geiriau, Trafod Celf, Fy Mywyd ac Awgrymiadau Defnyddiol.	
RHAN 5: Sesiynau 49 - 60	70 - 83
Gemau Corfforol, Seiniau, Plentyndod, Bwyd, Materion Cyfoes a Wynebau/Golygfeydd.	
RHAN 6: Sesiynau 61 - 75	84 - 100
Geiriau Cysylltiedig, Bod yn Greadigol, Categorioidio Gwrthrychau, Cyfeiriannu, Defnyddio Arian, Gemau Rhif, Gemau Geiriau & Chwis.	
Beth Nesaf?	101
Darllen ychwanegol ynghylch Prosiect Ysgogiad Gwybyddol (iCST)	102
Nodiadau	103

Croeso i 'Ein cyfnod....'

Ar ôl llawer o flynyddoedd yn gweithio ym maes gofal dementia, rwyf wedi cyfarfod llawer o ofalwyr sydd eisiau **gwneud gwahaniaeth**. Mae nhw eisiau gwella ansawdd bywyd y person y maent yn gofalu amdau. Hoffant lleihau'r cyfnodau hir o ddisymudrwydd sydd, yn anffodus, yn rhy gyffredin, a darparu cyfleoedd i ymgymryd â gweithgareddau sy'n ystyrlon ac yn ysgogi.

Sut y gellir gwneud hyn?

Wrth gwrs, nid yw'n hawdd cael llawer o amser rhydd i ymgymryd â'r gweithgareddau hyn ond, yn ddi-ddorol iawn, mae astudiaethau diweddar wedi dangos fod ymgymryd â gweithgareddau ysgogiad gwybyddol yn helpu i wneud gwahaniaeth gwirioneddol a barhaol i ansawdd bywyd pobl sydd â dementia. Does gen i ddim amheuaeth y bydd y gofalwyr sy'n cynnig y rhaglen a ddisgrifwyd yn y llawlyfr yma yn cymryd cam bach, ond pwysig tuag at gyflawni'r nod yma.

Mae'n syml ac yn hawdd

Nid oes angen offer arbennig; nid oes angen i ofalwyr gael cymwysterau arbennig na mynychu cyrsiau hyfforddiant hir. Yr unig beth sydd ei angen yw treulio amser gyda'r person sydd a dementia, mewn ystafell ddistaw, am 30 munud, dair gwaith yr wythnos am 25 wythnos. Er y gall un person cymryd swyddogaeth arweinydd wrth weithio gyda'r person â dementia, mi all pobl eraill ym mywyd person, er enghraifft wyrion neu ymwelwyr rheolaidd, gael mewbwn hefyd. Er hynny, mae'n rhaid i bawb fod yn barod i ddilyn egwyddorion allweddol y dull (wedi ei ddisgrifo ar dudalen 4), sy'n hollbwysig os yw'r rhaglen am fod yn effeithiol.

Mae'n effeithiol

Mae'r rhaglen fel y ddisgrifwyd yma, wedi datblygu ac esblygu o ganfyddiadau nifer o astudiaethau ymchwil rhyngwladol dros y blynyddoedd. Mae pobl sy'n cymryd rhan mewn ysgogiad gwybyddol yn adrodd cynnydd yn eu hansawdd bywyd, i'w gymharu â phobl sydd yn derbyn gofal arferol, ac maent fel arfer yn gwella ar broffion cof a galluoedd eraill. Mae'r canlyniadau yma i'w gweld yn ychwanegol at effeithiau unrhyw feddyginiaeth y mae'r person yn ei dderbyn ar gyfer ei dementia. Gall ofalwyr fod yn hyderus fod y rhaglen hon wedi ei seilio ar dystiolaeth gadarn o'r hyn sy'n gwneud gwahaniaeth i bobl sydd a dementia.

Mae'n bleserus

Yn ogystal a bod yn bwysig, mae'r gweithgareddau hyn yn hwylus ac yn bleserus! Mae'n bleser cael cyfle i ymlacio a chwerthin gyda'r person yr ydych yn gofalu amdau, gweld yr ochr ddigrif gyda'ch gilydd, gweld heibio'r dementia a mwynhau amser gyda'ch gilydd. Gall fod yn waith caled ar brydiau wrth gwrs, ond yn ôl y bobl sydd wedi cymryd rhan hyd yma, mae'n rhaglen werth chweil i fod yn rhan o. mai Gobeithiwn dyma fydd eich profiad chi hefyd!

Bob Woods

Athro Seicologeg Clinigol Pobl Hyn

Prifysgol Bangor

Egwyddorion Allweddol iCST

Rhaglen yn cynnwys gweithgareddau ysgogiad meddyliol ar gyfer pobl â dementia a'u gofalwyr yw Therapi Ysgogiad Gwybyddol Unigol (iCST). Mae'r llawlyfr wedi'i ddatblygu i gynnig canllawiau byr ar gyfer gofalwyr sy'n ymgymryd â iCST gyda'u perthynas. Mae Llawlyfr iCST yn cydnabod mai gofalwyr ac aelodau teulu'r person sydd â dementia yw'r arbenigwyr, ac yn sgil hyn mae eu sgiliau ymarferol yn cael ei hamlygu, ac mae'n annog cyfleoedd i ymgymryd â gweithgareddau ystyrlon gyda'u perthynas/ffrind. Mae'r therapi yn y Llawlyfr wedi ei seilio ar egwyddorion therapiwtig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Cyn disgrifio pob un o'r egwyddorion allweddol, rydym wedi amlinellu crynodeb o amcanion allweddol iCST, a'r cyfleoedd maent yn ei ddarparu ar eich cyfer chi a'r person yr ydych yn gofalu amdan. Bydd dilyn yr egwyddorion yn ôl y disgrifiad isod yn eich galluogi chi a'ch perthynas/ffrind fwynhau a gwneud y mwyaf o'r rhaglen.

Amcanion Therapi Ysgogi Gwybyddol Unigol	
•	Ysgogi meddyliol
•	Datblygu syniadau, meddyliau, a chydgysylltiadau newydd
•	Defnyddio cyfeiriannu mewn ffordd sensitif
•	Canolbwyntio ar farn, yn hytrach na ffeithiau
•	Defnyddio atgofion er mwyn dathlu a cofio bywyd y person
•	Defnyddio sbardunau i helpu cof
•	Ysgogi dysgu a chyfathrebu
•	Ysgogi iaith a thrafodaeth
•	Ysgogi'r gallu i cynllunio o ddydd i ddydd
•	Defnyddio dull gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
•	Cynnig dewisiadau mewn gweithgareddau
•	Annog mwynhad a hwyl
•	Uchafu potensial
•	Treulio amser o ansawdd gyda'ch gilydd
•	Cryfhau'r perthynas roi gofal

Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Mae iCST yn rhoi pwyslais ar y person fel unigolyn. Wrth ddefnyddio dull gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, rydym yn gweld y person yn anad dim, yn gweld y nodweddion unigryw sydd wedi'u diffinio drwy hanes eu bywyd, y profiadau sydd wedi siapio eu personoliaeth a'u agweddau, gan arwain at amrywiaeth o sgiliau, diddordebau, dewisiadau a galluoedd. Prif bwrpas iCST yw cynyddu profiadau pleserus y person drwy chanolbwyntio ar eu cryfderau, ac nid ar fannau anhawster. Rydym yn parchu'r person drwy ddod i adnabod be sy'n bwysig iddynt, gwerthfawrogi eu barn a'u cred bersonol, ac yn sgil hyn, caniatáu i'r person fod yn unigryw.

Cynnig Dewis

Mae'r rhaglen yn eithaf manwl er mwyn gwneud bywyd yn haws i ofalwyr sydd â llawer o ymrwymiadau gwahanol yn ychwanegol i'r gweithgareddau hyn. Mae'n bwysig eich bod yn cynnig amryw o ddewisiadau a gweithgareddau eraill i'ch perthynas os nad yw'r rhai yn y Llawlyfr yn siwtio. Mae cynnig dewisiadau yn helpu i chi a'ch perthynas wneud y rhaglen yn unigryw i chi. Rydym yn awgrymu eich bod yn gweithio gyda'ch gilydd er mwyn canfod gweithgareddau sy'n gweddu i ddi-ddordebau eich perthynas. Mae yna ddewis o weithgareddau ym mhob sesiwn (wedi ei ddisgrifio fel **Lefel A** a **Lefel B**). Gan amlaf, mae gweithgareddau Lefel B yn golygu mwy o ymdrech o ran cof a sgiliau gwybyddol y person. Dewiswch y lefel sydd fwyaf addas a phleserus i'ch perthynas/frind. Gallwch hefyd ddewis cymysgedd o weithgareddau o'r ddwy lefel ac ychwanegu syniadau eich hun! Mae lle penodol yn y Llawlyfr i chi nodi pa weithgareddau yr ydych chi wedi trio ym mhob sesiwn, fel y gallwch gyfeirio atynt ar gyfer y sesiynau nesaf.

Canolbwyntio ar Barn yn hytrach na ffeithiau

Nod bwysig iCST yw canolbwyntio ar gryfderau'r person. Os oes gormod o bwyslais ar 'ffeithiau', mae yna risg y bydd pobl yn anghywir. Pe byddem yn gofyn am farn pobl, maent yn medru bod yn ddoniol, trist, anghyffredin, dadleuol neu ryfedd, ond nid ydynt yn gallu fod yn anghywir. Mae gan bawb yr hawl i'w barn, wrth gwrs. Felly yn lle gofyn 'Pan oeddech yn blentyn, i ble aethoch chi ar eich gwyliau?' (cwestiwn cof), gofynnwch 'Ble mae eich hoff le i fynd ar eich gwyliau?' neu 'Ble buasech yn awgrymu i deulu ifanc fynd ar eu gwyliau?'. Yn hytrach na gofyn 'Pwy yw'r Prif Weinidog', gofynnwch 'Beth yw eich barn chi am wleidyddion?' neu 'Pwy oedd arweinydd orau'r wlad?', gan gynnig nifer o enwau, wedi'u hategu gyda ffotograffau. Ni ddylai'r gweithgareddau deimlo fel prawf cof, ac rydym yn eich annog i osgoi gofyn cwestiynau uniongyrchol i'r cof fel 'Fedrwch chi gofio...?'. Mae lleihau gofynion y weithgaredd yn creu amgylchedd sy'n hybu ymglymiad a llwyddiant.

Defnyddio atgofion

Mae siarad am atgofion o'r gorffennol yn ystod y sesiynau yn ddefnyddiol iawn i fedru galw i gof profiadau cynnar, ac i lawer mi all hyn fod yn weithgaredd bleserus. Gallwn ddefnyddio atgofion i ddatlu bywyd teuluol y person, eu personoliaeth, gyrfa, hobiau, a'u llwyddiannau. Serch hynny, mae'n rhaid ystyried y gall fod gan pobl atgofion poenus (trawmatig hyd yn oed) o'u bywyd cynnar, ac mae'n rhaid fod yn sensitif i osgoi wthio ein perthynas/frind i ddatgelu atgofion poenus. Y gorau yr ydym yn adnabod cefndir a hanes bywyd y person, y llai tebygol y bydd hyn yn digwydd. Mae defnyddio atgofion yn ein ysgogi ni i feddwl am ein profiadau blaenorol a digwyddiadau personol, ac yn magu hyder ynglŷn â'n bywydau blaenorol.

Defnyddiwch pethau go-iawn – edrych, cyffwrdd, a theimlo

Mae'r rhaglen yma yn cynnig ffocws. Pan fydd cof wedi'i gyfyngu, gall geiriau mewn trafodaeth cael eu colli; mae cael gwrthrych, ffotograff, neu lun yn cadw sylw'r person ar y gweithgaredd ac yn annog ffocws/canolbwyntio. Mae defnyddio'r ysgogiadau, gwrthrychau, a gweithgareddau papur yn y rhaglen yma yn caniatáu i ni greu amgylchedd sy'n hybu llwyddiant. Mae defnyddio amrywiaeth o synhwyrâu yn ystod iCST, fel bod golwg, cyffyrddiad, clyw, blas ac arogl yn cael eu cynnwys yn ddefnyddiol iawn. Cael cyfuniad o'r synhwyrâu yw'r dull mwyaf effeithiol. Er enghraifft, mae kannwyll beraroglus yn cynnig arogl dymunol, yn ogystal â gallu gweld y fflam yn crynu a theimlo'r y gwres ar eich croen. Gallwn ddefnyddio cyfathrebu di-eiriau yn ogystal ag ar lafar wrth i'n mynegiant wynebol, tŷn ein llais, osgo, ac ystum ddweud y cyfan!

Gwneud y mwyaf o botensial

Mae tystiolaeth yn dangos bod pobl gyda dementia yn medru dysgu gyda'r anogaeth a chymorth priodol. Felly, ni ddylem honni fod person gyda dementia yn methu cyfrannu neu ymgymryd â gweithgareddau oherwydd nad oeddynt yn gallu ddoe, neu'r wythnos ddiwethaf. Yn aml, mae pobl gyda dementia yn gweithredu yn llawer is na'u llawn potensial, yn aml oherwydd diffyg cyffroad neu cyfleon. Un nod pwysig iCST yw ei fod yn gweithio trwy adeiladu ar sgiliau gwybyddol y person, ac yn rhoi cyfle iddynt ymarfer y sgiliau yma. Mae hyn yn golygu rhoi amser i'r person, bod yn ofalus i beidio gorlwytho na'u gorlethu gyda gwybodaeth, a chynnig prin ddigon o awgrymiadau i alluogi'r person i wneud y gweithgareddau eu hunain. Mi fydd hyn yn cynyddu eu llwyddiant, a fydd yn cynorthwyo dysgu a mwynhad. Mae pobl gyda dementia yn fwy tebygol o gyrraedd eu potensial drwy wneud yn hytrach na eistedd a gwyllo yn oddefol. Gallwn wneud y gorau o botensial trwy alluogi'r person i ymarfer eu sgiliau, a thrwy alluogi hwy i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon a chyffrous.

Mwynhad a Hwyl

Weithia, gall pobl gyda dementia wneud sylwadau megis 'mae hyn yn debyg i fod yn ôl yn ysgol'. Os ydynt yn teimlo eu bod yn gweithio'n rhy galed o fewn amgylchedd caeth a difrifol, yna mae rhywbeth o'i le! Bwriad y gweithgareddau yw cynnig awyrgylch dysgu hwylus a phleserus. Rydym yn ceisio ysgogi ymenyddiau pobl, yn ogystal â'u cyhyrau chwerthin! Os yw'r person yn gwneud sylwadau am 'ysgol', yna holwch beth oeddynt yn mwynhau ac yn casáu am yr ysgol, ac ystyriwch os ydych yn cymryd rôl yr 'athro' yn rhy llythrennol. Egwyddor allweddol y rhaglen yw bod eich perthynas/ffrind yn cael y teimlad o allu ac o fod mewn grym.

Iaith Gynhyrfus

Mae tystiolaeth yn dangos bod sgiliau iaith yn gwella pan fydd pobl yn gwneud gweithgareddau sy'n cynhyrfu'r meddwl. Mae nifer o'r sesiynau yn y rhaglen yma yn cynhyrfu iaith, er enghraifft enwi gwrthrychau a phobl (e.e. categoreiddio), meddwl am luniad geiriau a geiriau cysylltiol. Nod pwysig iCST yw hybu cyfathrebu a gwenud amser i wrando. Mae'n bwysig ystyried unrhyw broblemau clyw neu olwg sydd gan eich perthynas/ffrind, neu mai nid Saesneg/Cymraeg yw eu iaith gyntaf. Mae eistedd yn agos atynt wrth ymgymryd â'r gweithgareddau, yn ogystal â gwneud yn siŵr bod ganddynt eu sbectol a/neu declyn clywed yn bwysig iawn. Mae darparu awyrgylch ble mae cyfraniad y person yn cael ei werthfawrogi a'i barchu, a ble mae amrywiaeth o safbwyntiau yn cael ei groesawu, yn rhan bwysig o iCST.

Cryfhau'r perthynas rhoi gofal

Mi fydd y sesiynau yn helpu cryfhau perthnasau - yn enwedig petawn ni'n osgoi bod fel 'athrawon', ac yn cynorthwyo'r person i ymuno, a chael hwyl. Agwedd bwysig iCST yw ei fod yn galluogi aelodau eraill o'r teulu, perthnasau a ffrindiau i fod yn rhan o'r rhaglen. Mae'r rhaglen wedi ei gynllunio i gynnig cyfle i pobl gyda dementia a'u gofalwyr deimlo'n ddibryder, a mwynhau amser o ansawdd gyda'i gilydd. Y gwir ffocws yw ansawdd a llawenydd y rhyngweithiad, ac nid y gweithgaredd ei hun. Mi ddylai iCST neilltuo amser i ddathlu eich bywyd chi fel gofalwr! Mae darparu amgylchedd gofalgar, hapus, a foddhaus i'ch perthynas/ffrind yn brofiad gwobrwyol ac rydym yn obeithiol y bydd y rhaglen yn helpu gofalwyr yn eu swyddogaeth bwysig iawn.



Sut i ddefnyddio'r Llawlyfr

Mi fydd llawer o stopio ac ail-gychwyn wrth ddefnyddio a gweithredu'r rhaglen, ac rydym yn obeithiol y bydd yn brofiad pleserus i chi a'ch perthynas. Un o'r elfennau orau o greu'r rhaglen yma oedd clywed y sylwadau calonogol gan ofalwyr a phobl gyda dementia a oedd wedi trio'r rhaglen. Rydym wedi cynnwys rhai o'r sylwadau yma isod:

"Rydym wedi cael amseroedd braf a phleserus yn gwneud y gweithgareddau gyda'n gilydd".

"Mae'r rhaglen wedi rhoi syniadau i mi na faswn i erioed wedi meddwl amdanynt".

"Rwy'n falch bod iCST gyda ni, mae e wedi bod yn llawer o help i ni".

"Mae e wedi dysgu ni sut i weithio ar y pethau sydd o bwys, ac anwybyddu'r pethau sydd ddim".

Croeso i Therapi Ysgogiad Gwybyddol Unigol i ofalwyr!

Mae'r Llawlyfr yma yn rhoi canllawiau cam wrth gam i chi gyflawni'r Therapi Ysgogiad Gwybyddol Unigol, neu 'iCST'. Fe'i rhennir yn 6 rhan wahanol, gyda chod lliwiau i helpu chi ddarganfod eich ffordd drwyddynt. Mae canllawiau manwl ar gyfer pob gweithgaredd ar dudalen ar wahân, gan gynnwys strwythur y sesiwn a syniadau am weithgareddau a phynciau.



Faint o sesiynau sydd yna a pha mor hir ydynt?

Mae 75 o sesiynau gweithgaredd iCST yn y Llawlyfr yma. Rydym yn argymhell eich bod chi a'ch perthynas yn cwblhau tri sesiwn iCST yr wythnos. Mi fydd pob sesiwn yn cymryd oddeutu 20-30 munud.

Sut mae'r sesiynau wedi'i strwythuro?

Mae strwythur pob sesiwn yr un fath, hynny yw, trafodaeth agoriadol o'r tywydd a materion cyfoes, gan ddilyn ymlaen at brif weithgaredd iCST. Mae'r gweithgareddau ar gyfer pob sesiwn wedi cael eu cynllunio er mwyn annog trafodaeth ynglŷn ag achosion gwahanol.

Sut rydw i'n dod o hyd i'r adnoddau ar gyfer y gweithgareddau?

Mae llawer o'r adnoddau ar gyfer y gweithgareddau papur yn y Llyfr Weithgaredd iCST, sydd hefyd wedi cael ei rannu'n 6 rhan gyda chod lliw gwahanol ar gyfer pob rhan. Mae gan bob rhan o'r Llawlyfr dudalen Cynnwys ac Adnoddau i'ch arwain chi. Fel rhan o iCST, rydych hefyd yn derbyn Pecyn Cymorth iCST gydag eitemau ychwanegol (e.e. dominos, cardiau chwarae, mapiau D.U a'r Byd, deunyddiau ysgrifennu defnyddiol) a Dyddiadur Gofalwyr iCST.

Yr Amser a'r Lle i iCST

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi ystyried pa amser o'r dydd sydd orau i chi a'ch perthynas wneud y gweithgareddau. Er enghraifft, efallai y bydd yn haws cwblhau'r gweithgareddau yn y bore. Efallai y bydd angen amser i chi gyfarwyddo'ch hun i'r gweithgareddau neu darparu deunyddiau cyn pob sesiwn. Dewiswch leoliad sy'n gyffyrddus i chi a'ch perthynas i wneud y sesiynau. Efallai y bydd yn ddefnyddiol cael bwrdd fel y gallwch osod eich deunyddiau arno.



Ymgymryd â' r Gweithgareddau

Canllawiau Byr

Mae gan bob person sydd â dementia eu diddordebau, sgiliau, profiadau a'u galluoedd unigol. Mae ymchwil blaenorol yn dangos bod pobl gyda dementia yn medru ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau ystyrlon ac ysgogol. Nod allweddol y rhaglen iCST yw sicrhau bod y person yn ymgymryd â gweithgareddau sy'n eu galluogi i deimlo mwynhad a llwyddiant. Un rheswm sydd yn gallu rhwystro mwynhad y person yw bod y gweithgareddau naill ai'n rhy hawdd neu'n rhy anodd. Mae'n bwysig ein bod yn dod o hyd i ffyrdd o addasu'r sesiynau fel eu bod yn rhoi cyfle i'r person fwynhau a theimlo'n bositif am y rhaglen. Isod, mae canllawiau byr i chi ddilyn wrth ymgymryd â'r sesiynau gyda'ch perthynas/ffrind:

Canllawiau Byr

- Wrth wneud y gweithgareddau, dewiswch amser o'r dydd sy'n **'teimlo'n iawn'**
- Sicrhewch fod y sesiynau yn canolbwyntio ar farn yn hytrach na ffeithiau
- **Osgowch gywiro a phwysleisio gwallau** yn ystod y sesiynau
- **Osgowch ofyn cwestiynau uniongyrchol** fel 'ydych chi'n cofio...?'
- Addaswch y sesiynau fel eich bod yn cynnwys **diddordebau eich perthynas/ffrind**
- **Osgowch ofyn cwestiynau sy'n gofyn am gof amlwg** 'I le aethoch chi ar eich gwyliau flwyddyn ddiwethaf...?'
- Canolbwyntiwch ar **gryfderau'r person**
- **Cynigiwch ddewis o weithgaredd arall** os nad yw'r gweithgaredd cyntaf yn gweithio

Dechrau arni

Cyn cychwyn pob sesiwn, rydym yn argymhell eich bod chi a'ch perthynas yn gwario rhwng 5-10 munud yn cynhesu. Isod, gwelwch awgrymiadau ar sut i gynhesu a syniadau ar sut i gychwyn pob sesiwn.



Trafodwch y diwrnod, dyddiad, tywydd a thymor

Treuliwch ychydig o funudau yn trafod y tywydd. Edrychwch trwy'r ffenestr gyda'ch gilydd a holwch eich perthynas beth yw eu barn am yr amgylchiadau tu allan. Pwrpas y rhan yma o'r sesiwn yw cyfeirio'r person mewn ffordd sensitif, a'u tywys trwy'r wybodaeth. Isod, mae nifer o awgrymiadau i'ch helpu:

Defnyddiwch giwiau: Defnyddiwch **bapurau newydd, calendrau, dyddiaduron** a **chlociau** fel ciwiau i gyfeirio sylw eich perthynas tuag at giwiau sy'n dangos gwybodaeth am y tymor, diwrnod, dyddiad, a thywydd.

Siaradwch am blaniau'r wythnos: Trafodwch gyda'ch perthynas gweithgareddau'r wythnos flaenorol a siaradwch am ddigwyddiadau'r dyfodol.

Ymadroddion a chwestiynau defnyddiol:

- Beth yw eich barn am y tywydd heddiw? Ydi o'n arferol i adeg yma o'r flwyddyn?
- Ydi hi'n ben-blwydd ar rywun tybed?



Trafodwch digwyddiadau newyddion diweddar neu gyfoes

Mae gwario ychydig o funudau yn trafod digwyddiadau cyfoes yn helpu eich perthynas cyfeirio'i hun i'r presennol .

Papur Newydd: Dewiswch erthygl o'r papur newydd a thrafodwch gyda'ch gilydd. Trafodwch syniadau sydd gennych ynglŷn â'r eitem newyddion. Gallwch baratoi grynodedb byr gyda phennawd newyddion a lluniau, neu grynodedb byr o ddigwyddiadau'r diwrnod ar gyfer eich trafodaeth.

Digwyddiadau lleol neu bersonol: Siaradwch am ddigwyddiad lleol diddorol neu bwysig, neu ddigwyddiadau yn perthyn i deulu neu ffrindiau.



Cychwynnwch bob sesiwn gyda lluniaeth

Mae cael diod neu rhywbeth bach i fwyta gyda'ch gilydd yn ffordd braf o gychwyn y sesiwn.

Gweithgareddau ymgynhesu eraill cyn cychwyn pob sesiwn:

- Gwrando ar ddarn o gerddoriaeth neu ganu hoff ganeuon
- Mae symudiadau/ymestyniadau mwyn, ac ymarfer anadlu yn medru helpu gydag ymlacio. Ond rhaid cymryd gofal i osgoi gor-ymestyn neu anafu eich hun wrth wneud ymarferion ysgafn.

Dyddiadur Gofalwyr

Mae'r Dyddiadur Gofalwyr yn ffynhonnell gwybodaeth ddefnyddiol iawn o ansawdd gweithgareddau iCST, a fydd yn helpu'r tîm ymchwil i werthuso llwyddiant y rhaglen. Mae'r Dyddiadur Gofalwyr hefyd wedi cael ei gynllunio i rhoi cyfle i chi a'ch perthynas/ffrind drafod llwyddiannau'r sesiynau. Gall hefyd helpu chi i addasu a chunllunio ar gyfer sesiynau'r dyfodol gan gymryd diddordebau eich perthynas i ystyriaeth. Isod, mae enghraifft o'r ffurflen yr ydym yn argymhell eich bod yn cwblhau ar gyfer pob un o themâu iCST. Wrth gwblhau'r ffurflen, cymerwch amser i drafod gyda'ch perthynas yr hyn yr ydych wedi ei fwynhau neu ddim ar gyfer pob gweithgaredd!

Rhowch gylich o amgylch yr ymateb priodol

Gosodiad	Ddim o gwbl	Ychydig bach	Cymedrol	Tipyn	Yn fawr iawn
Dangosodd y person diddordeb?	1	2	3	4	5
Wnaeth y person cyfathrebu?	1	2	3	4	5
Dangosodd y person mwynhad?	1	2	3	4	5
Sut y buasech yn gwerthuso tymer y person heddiw?	Gwael	Gweddol	Da	Da iawn	Rhagorol

Cwestiynau cyffredin

1. Fedrwn ni gymryd seibiant os oes angen?

Medrwnch, mae modd i chi gymryd amser i gael seibiant neu luniaeth a chodi gfael ar y sesiwn o ble wnaethoch orffen. Wrth ail-gychwyn, efallai y bydd yn ddefnyddiol i adolygu'r gweithgareddau wnaethoch chi gwblhau cyn gorffen. Er enghraifft, os oeddech yn cwblhau chwilaer, gallwch atgoffa'ch perthynas/ffrind pa eiriau oeddech wedi ffeindio, a thrafod pa eiriau sydd dal angen eu darganfod.

2. Beth os nad oes gennym amser i gwblhau sesiwn?

Mae gofalwyr yn dilyn bywydau prysur iawn ac mae digwyddiadau annisgwyl yn digwydd o bryd i'w gilydd. Os ydych yn methu sesiwn oherwydd ymrwymadau eraill, yna mi fedrwnch ail-drefnu'r sesiwn ar gyfer amser mwy cyfleus. Efallai y byddwch eisiau ystyried gofyn i aelodau eraill o'r teulu, fel wyrion, ffrindiau, neu ymwelwyr rheolaidd gymryd rhan yn y rhaglen. Pan oedd y rhaglen yn cael ei gynllunio, crybwyllodd y gofalwyr bod cynnwys aelodau eraill o'r teulu yn y sesiynau yn hwyl, yn creu llawer o drafodaeth ac yn eu gwneud i deimlo fel rhan o'r rhaglen.

3. Gallwn ysgrifennu ar y Llawlyfr a Llyfr Gweithgaredd iCST?

Gallwch, mae croeso i chi ysgrifennu ar unrhyw ddarn o'r Llawlyfr a Llyfr Gweithgaredd iCST.

4. Oes rhaid i mi gwblhau'r Dyddiadur Gofalwyr?

Mae'r Dyddiadur Gofalwyr yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol iawn am ansawdd gweithgareddau iCST, a fydd yn helpu'r tîm ymchwil i werthuso llwyddiant y rhaglen. Mae'r Dyddiadur Gofalwyr yno i'ch helpu chi a'ch perthynas/ffrind gadw cofnod o lwyddiannau'r sesiynau. Mi all helpu chi i addasu a chynllunio ar gyfer sesiynau'r dyfodol, gan ystyried diddordebau eich perthynas a chi, ac unrhyw sylwadau o'r gweithgareddau blaenorol.

5. Sut ydw i'n paratoi am y gweithgareddau, a pha mor hir mae hyn yn cymryd?

Rydym yn argymhell eich bod yn cymryd cip olwg yn y llyfryn iCST i weld beth yw'r themâu yn y sesiwn nesaf, a'r gweithgareddau a baratowyd ar gyfer y sesiwn yna yn y Llyfr Gweithgaredd. Mae hyn yn rhoi cyfle i chi gyfarwyddo eich hun gyda'r gweithgaredd neu feddwl am syniadau eraill os ydych yn penderfynu na fydd y gweithgareddau a ddarparwyd yn hwylus neu addas i ddiddordebau eich perthynas.

6. Ddylem gwblhau'r sesiynau yn y drefn a amlinellir yn y llawlyfr?

Yn gyffredinol, ddylech. Cafodd y llawlyfr iCST ei gynllunio'n agos gyda gofalwyr a phobl gyda dementia, felly pan mae'n bosib, cadwch at drefn y sesiynau fel y maent yn y llawlyfr. Bwriad y syniadau a awgrymwyd yn y llawlyfr yw bod yn fan cychwyn am drafodaeth. Gallwch eu defnyddio fel canllawiau, ond os oes gennych syniadau am weithgareddau eich hun, yna byddwch yn greadigol! Chi sydd yn adnabod y person orau, a'r math o weithgareddau a fydd yn fwy pleserus iddynt. Fodd bynnag, os byddwch yn hoffi cyngor am greu gweithgareddau eich hun, yna cysylltwch ag ymchwilydd. Mae eu manylion cyswllt yn eich pecyn hyfforddiant.

7. Sut ydw i'n dewis pa lefel o weithgaredd?

Mae rhan fwyaf o'r gweithgareddau wedi'i rannu i fewn i 'Lefel A' a 'Lefel B'. Mae gweithgareddau Lefel A yn dueddol o fod yn llai heriol na Lefel B. Wrth benderfynu pa lefel sydd fywaf addas, ystyriwch diddordebau a gallu eich perthynas/ffrind, a gofynnwch pa weithgaredd y bydden nhw yn hoffi. Nid oes rhaid i chi ddilyn lefel arbennig drwy'r rhaglen. Mae gan bob unigolyn alluoedd gwahanol, ac efallai y byddent yn gweithio o fewn Lefel A mewn un sgil, fel cyfathrebu, ond Lefel B dro arall, fel sgiliau rhifol.

Parhad....(cwestiynau cyffredin)

8. Faint o amser ddylem wario ar bob gweithgaredd?

Nid oes cyfyngiad amser penodol ar gyfer unrhyw weithgaredd yn y rhaglen, felly medrwyd wario cyn fwyaf neu cryn gymaint o amser ar bob gweithgaredd sy'n eich siwtio chi. Chi ddylai farnu pan mae'n addas i chi 'symud ymlaen' i'r cwestiwn neu ran nesaf y gweithgaredd. Rhaid ystyried ei fod yn bwysig eich bod yn caniatáu digon o amser i'ch perthynas/ffrind feddwl am y cwestiynau a phwyntiau trafod. Os oes cwestiynau sy'n rhy heriol neu ddim yn diddori'r person, ewch ymlaen at gwestiwn arall neu bwnc arall. Mae pob sesiwn wedi ei gynllunio i bara 20 munud, yn fras.

9. Beth sy'n digwydd os yw fy mherthynas/ffrind yn rhoi ateb anghywir yn ystod y sesiwn?

Nid yw hyn yn broblem, oherwydd bwriad y rhaglen yw canolbwyntio ar farn yn hytrach na ffeithiau. Mae'r gweithgareddau wedi eu cynllunio fel bod mwy nag un ateb i gwestiwn fel arfer, a bod llai o bwyslais ar gywirdeb ac anghywirdeb. Ein greddf gan amlaf yw cywiro camgymeriadau, ond mae'n bwysig ein bod yn gwrthsefyll hyn fel ein bod yn arbed ein perthynas/ffrind i deimlo o dan bwysau neu'n isel. Er enghraifft, os yw person yn meddwl bod llun o dirwedd yn Yr Eidal, ond tirwedd yn Ffrainc ydyw mewn gwirionedd, nid oes angen i chi ddweud eu bod yn 'gywir' neu'n 'anghywir'. Yn hytrach, trafodwch gyda'r person be yn union am y llun sy'n gwneud iddynt feddwl am Yr Eidal.

10. Nid yw fy mherthynas/ffrind hefo diddordeb yn y thema o fewn y sesiwn?

Mae pawb hefo diddordebau gwahanol ac mae'n naturiol na fydd rhai o'r themâu at ddant pawb. Os mai hyn yw'r achos, gallwch ailymweld â gweithgaredd o un o'r themâu wnaethoch fwynhau. Os oes angen, mi all y Dyddiadur Gofalwyr eich helpu i ddarganfod themâu wnaethoch fwynhau ag ailymweld a nhw. Hefyd, byddwch yn ystyrlon nad ydym yn teimlo'r un fath pob diwrnod, felly mi all fod yn syniad i drïo pethau eto ar ddyddiad gwahanol, oherwydd mae'n bosib y bydd yn fwy llwyddiannus ar adeg wahanol. Os yw'r gweithgaredd yn achosi trallod i'ch perthynas/ffrind neu nid ydynt yn ymateb, mi all hyn fod yn gliw eu bod yn gweld y gweithgaredd yn rhy heriol. Os yw hyn yn digwydd, efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi gysylltu ag aelod o'r tîm ymchwil i drafod ac ystyried be ddigwyddodd er mwyn i chi allu cynllunio ar gyfer y sesiwn nesaf.

11. Fydd 'na rhwyun o gwmpas i'm helpu yn ystod y rhaglen?

Bydd, mi fydd y tîm ymchwil mewn cysylltiad cyson i gynnig cymorth tra rydych yn ymgymryd â'r rhaglen. Os ydych angen help, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, mi fedrwyd gysylltu ag ymchwilydd dros y ffôn a byddent yn fwy na hapus i'ch helpu. Mae eu manylion cyswllt yn eich pecyn hyfforddiant.

RHAN 1 Cynnwys



Sesiwn 1: Fy Mywyd Rhan 1	16
Sesiwn 2: My Mywyd Rhan 2	17
Sesiwn 3: Materion Cyfoes Rhan 1	18
Sesiwn 4: Materion Cyfoes Rhan 2	19
Sesiwn 5: Bwyd Rhan 1	20
Sesiwn 6: Bwyd Rhan 2	21
Sesiwn 7: Bod yn Greadigol Rhan 1	22
Sesiwn 8: Bod yn Greadigol Rhan 2	23
Sesiwn 9: Gemau Rhif Rhan 1	24
Sesiwn 10: Gemau Rhif Rhan 2	25
Sesiwn 11: Gemau Cwis Rhan 1	26
Sesiwn 12: Gemau Cwis Rhan 2	27



Rhan 2 Cynnwys



Sesiwn 13: Seiniau Rhan 1	30
Sesiwn 13: Seiniau Rhan 1	31
Sesiwn 15: Gemau Corfforol Rhan 1	32
Sesiwn 16: Gemau Corfforol Rhan 2	33
Sesiwn 17: Categoriadau Gwrthrychau Rhan 1	34
Sesiwn 18: Categoriadau Gwrthrychau Rhan 2	35
Sesiwn 19: Trysorau'r Cartref Rhan 1	36
Sesiwn 20: Trysorau'r Cartref Rhan 2	37
Sesiwn 21: Awgrymiadau Defnyddiol Rhan 1	38
Sesiwn 22: Awgrymiadau Defnyddiol Rhan 2	39
Sesiwn 23: Cardiau Meddwl Rhan 1	40
Sesiwn 24: Cardiau Meddwl Rhan 2	41



RHAN 3 Cynnwys



Sesiwn 25: Cllipiau Gweledol Rhan 1	44
Sesiwn 26: Cllipiau Gweledol Rhan 2	45
Sesiwn 27: Trafod Celf Rhan 1	46
Sesiwn 28: Trafod Celf Rhan 2	47
Sesiwn 29: Wynbau / Golygfeydd Rhan 1	48
Sesiwn 30: Wynbau / Golygfeydd Rhan 2	49
Sesiwn 31: Gemau Geiriau Rhan 1	50
Sesiwn 32: Gemau Geiriau Rhan 2	51
Sesiwn 33: Sloganau Rhan 1	52
Sesiwn 34: Sloganau Rhan 2	53
Sesiwn 35: Geiriau Cysylltiedig Rhan 1	54
Sesiwn 36: Geiriau Cysylltiedig Rhan 2	55



RHAN 4 Cynnwys



Sesiwn 37: Cyfeiriannu Rhan 1	58
Sesiwn 38: Cyfeiriannu Rhan 2	59
Sesiwn 39: Defnyddio Arian Rhan 1	60
Sesiwn 40: Defnyddio Arian Rhan 2	61
Sesiwn 41: Gemau Geiriau Rhan 1	62
Sesiwn 42: Gemau Geiriau Rhan 2	63
Sesiwn 43: Trafod Celf Rhan 1	64
Sesiwn 44: Trafod Celf Rhan 2	65
Sesiwn 45: Fy Mywyd (Galwedigaethau) Rhan 1	66
Sesiwn 46: Fy Mywyd (Galwedigaethau) Rhan 2	67
Sesiwn 47: Awgrymiadau Defnyddiol Rhan 1	68
Sesiwn 48: Awgrymiadau Defnyddiol Rhan 2	69



RHAN 5 Cynnwys



Sesiwn 49: Gemau Corfforol Rhan 1	72
Sesiwn 50: Gemau Corfforol Rhan 2	73
Sesiwn 51: Seiniau Rhan 1	74
Sesiwn 52: Seiniau Rhan 2	75
Sesiwn 53: Plentynod Rhan 1	76
Sesiwn 54: Plentynod Rhan 2	77
Sesiwn 55: Bwyd Rhan 1	78
Sesiwn 56: Bwyd Rhan 2	79
Sesiwn 57: Materion Cyfoes Rhan 1	80
Sesiwn 58: Materion Cyfoes Rhan 2	81
Sesiwn 59: Wynbau / Golygfeydd Rhan 1	82
Sesiwn 60: Wynbau / Golygfeydd Rhan 2	83



RHAN 6 Cynnwys



Sesiwn 61: Cysylltu Geiriau Rhan 1	86
Sesiwn 62: Cysylltu Geiriau Rhan 2	87
Sesiwn 63: Bod yn Greadigol Rhan 1	88
Sesiwn 64: Bod yn Greadigol Rhan 2	89
Sesiwn 65: Categoriadau Gwrthrychau Rhan 1	90
Sesiwn 66: Categoriadau Gwrthrychau Rhan 2	91
Sesiwn 67: Cyfeiriannu Rhan 1	92
Sesiwn 68: Cyfeiriannu Rhan 2	93
Sesiwn 69: Defnyddio Arian Rhan 1	94
Sesiwn 70: Defnyddio Arian Rhan 2	95
Sesiwn 71: Gemau Rhif Rhan 1	96
Sesiwn 72: Gemau Rhif Rhan 2	97
Sesiwn 73: Gemau Geiriau Rhan 1	98
Sesiwn 74: Gemau Geiriau Rhan 2	99
Sesiwn 75: Cwis	100



RHAN 1

Adnoddau ar gyfer y rhan yma


- Llyfr Gweithgaredd Rhan 1
- Eitemau Pecyn Cymorth iCST: cardiau chwarae, dominos
- Eitemau eraill (opsiynol):
 - Papur a phensil
 - Papurau newydd, cylchgronau neu papurau lleol
 - Ffotograffau hen a newydd o theulu a ffrindiau
 - Darnau arian neu gownteri
 - Cynhwysydd e.e. het/bowlen
 - Amserydd
 - Recorder Tâp/chwaraewr CD
 - CDs cerddoriaeth/Tapiau
 - Eitemau bwyd
 - Gemau e.e. Ludo, connect 4, Yahtzee
 - Deunyddiau ar gyfer gweithgaredd creadigol o'ch dewis (sesiynau 7 & 8)

RHAN 1

Cynnwys



Sesiwn 1: Fy Mywyd Rhan 1	16
Sesiwn 2: My Mywyd Rhan 2	17
Sesiwn 3: Materion Cyfoes Rhan 1.....	18
Sesiwn 4: Materion Cyfoes Rhan 2	19
Sesiwn 5: Bwyd Rhan 1	20
Sesiwn 6: Bwyd Rhan 2	21
Sesiwn 7: Bod yn Greadigol Rhan 1	22
Sesiwn 8: Bod yn Greadigol Rhan 2	23
Sesiwn 9: Gemau Rhif Rhan 1	24
Sesiwn 10: Gemau Rhif Rhan 2	25
Sesiwn 11: Gemau Cwis Rhan 1	26
Sesiwn 12: Gemau Cwis Rhan 2	27



Sesiwn 1: Fy Mywyd (HANES BYWYD)

Rhan 1



Trafodwch y diwrnod, mis, blwyddyn, tymor, tywydd, ac amser (**5 munud**).

Trafodwch ddigwyddiad diweddar neu rywbeth cyfoes yn y newyddion (**5 munud**).

Prif Weithgaredd: Siart Achau (**20 munud**).



Level A

Deunyddiau: Ffotograffau hen a newydd o'r teulu.

Edrychwch ar ffotograffau hen a newydd o'r teulu a thrafodwch nhw, naill ai drwy trefnu nhw mewn llinell amser neu goeden.



- Pethau i feddwl amdanynt...**
- Nodweddion tebyg teulu
 - Storiau diddorol aelodau'r teulu
 - Hoff aelodau'r teulu yn blentyn
 - Cyngor ar sut i gynnal perthnasau teuluol da



Lefel B

Deunyddiau: Templed Siart Achau (Llyfr Gweithgaredd Rhan 1, tudalennau 5 - 6), ffotograffau aelodau'r teulu (opsiynol), pensil, papur (opsiynol).

Defnyddiwch y templed â ddarparwyd i greu siart achau er mwyn recordio hanes eich teulu. Ysgrifennwch enwau aelodau'r teulu yn y bylchau neu atodwch ffotograff.

- Pethau i feddwl amdanynt...**
- Dyddiau geni neu leoliadau geni ddilyn gwreiddiau daearyddol y teulu.
 - Storiau diddorol aelodau'r teulu
 - Sut mae bywydau pawb yn wahanol gyda phob cenhedlaeth

Canllawiau: Llyfr Gweithgaredd Rhan 1, tudalennau 5 - 6.

Eich Syniadau

Sesiwn 2: Fy Mywyd (HANES BYWYD)

Rhan 2



Trafodwch diwrnod, mis, blwyddyn, tymor, tywydd, ac amser **(5 munud)**.

Trafodwch digwyddiad diweddar neu rywbeth cyfoes yn y newyddion **(5 munud)**.

Prif Weithgaredd: Hanes Fy Mywyd **(20 munud)**.

Lefel A

Deunyddiau: Gêm fwrdd 'Hanes Fy Mywyd' (Llyfr Gweithgaredd Rhan 1, tudalennau 7 - 8), neu darnau arian neu gownteri (opsynol).

Gosodwch y gêm fwrdd 'Hanes fy Mywyd' ar wyneb gwastad, fel bwrdd bwyd neu goffi. Tafllwch neu troellwch ddarn arian ar y bwrdd yn eich tro. Atebwch y cwestiwn bywyd sydd yn y blwch y mae'r darn arian yn glanio arno (neu'n agos ato).

Canllawiau: Llyfr Gweithgaredd Rhan 1, tudalennau 7 - 8.

Lefel B

Deunyddiau: Taflen 'Fy Mywyd yn awr' (Llyfr Gweithgaredd Rhan 1, tudalennau 9 - 10).

Defnyddiwch y pwyntiau ar y daflen weithgaredd i anogi sgwrs am ddiddordebau a hoff a chas bethau eich perthynas. Nid oes atebion cywir nac anghywir, mae croeso i chi nodi eich syniadau ar bapur, neu drafod y pynciau'n unig os yw hynny'n well gennych.

Canllawiau: Llyfr Gweithgaredd Rhan 1, tudalennau 9 - 10.

Eich Syniadau

Sesiwn 3: MATERION CYFOES

Rhan 1



Trafodwch diwrnod, mis, blwyddyn, tymor, tywydd, ac amser (**5 munud**).

Trafodwch ddigwyddiad diweddar neu rywbeth cyfoes yn y newyddion (**5 munud**).

Prif Weithgaredd: Materion Cyfoes (**20 munud**).

Lefel A

Deunyddiau: Papur a pensil, cynhwysydd (e.e. bowlen, bag).

Ysgrifennwch gwestiynau ar ddarnau o bapur a'i rhoi yn y cynhwysydd. Tynnwch gwestiynau allan ar hap a thrafodwch y pynciau. Naill ai defnyddiwch y pynciau a awgrymwyd isod, neu defnyddiwch rhai eich hun.

Pynciau a Awrymwyd:

- Ydych chi'n credu dylai dynion a merched gael swyddi gwahanol? Yn eich barn chi, dylai dynion wneud y coginio, glanhau, a golchi?
- Ydi hi'n rhy hawdd i gael ysgariad dyddiau yma?
- Oes angen oed ymddeol i bawb? Pa oed,
- Beth yw eich barn am briodasau unrhyw?
- Beth yw eich barn am y Teulu Brenhinol?

Lefel B

Deunyddiau: Papurau newydd diweddar, atodiadau arbennig, cylchgronau lleol, erthyglau o'r rhyngwyd.

Dewiswch nifer o erthyglau ynglyn ag achosion newyddion cyfoes/digwyddiadau cyfoes byd-eang neu leol rydych chi a'ch perthynas yn mwynhau trafod.

Pethau i feddwl amdanynt...

- Digwyddiadau byd-eang diweddar
- Sut mae digwyddiadau yn effeithio ar bobl yn yr ardal/effaith eang y digwyddiadau
- Allwn ni ddysgu o ddigwyddiadau tebyg o'r gorffennol?

Eich Syniadau

Sesiwn 4: MATERION CYFOES



Rhan 2

Trafodwch y diwrnod, mis, blwyddyn, tymor, tywydd, ac amser (**5 munud**).

Trafodwch ddigwyddiad diweddar neu rywbeth cyfoes yn y newyddion (**5 munud**).

Prif Weithgaredd: Materion Cyfoes ac o'r Gorffennol (**20 munud**).

Lefel A

Deunyddiau: Erthyglau papur newydd o'r 50au a 60au (Llyfr Gweithgaredd Rhan 1, tudalennau 11 - 13), a phapur newydd diweddar (opsiynol).

Trafodwch eitemau newyddion o'r erthyglau a ddarparwyd, ac ambell i eitem newyddion o'r papur newydd diweddar

- Pethau i feddwl amdanynt...**
- Nodweddion sy'n debyg ac annhebyg
 - Y ffordd mae'r newyddion wedi cael ei hadrodd
 - Yr math o newyddion sydd wedi cael ei hadrodd
 - Pa erthyglau sydd yn well gennych a pham?
 - Arwyddion fod cymdeithas wedi newid neu aros y un fath.

Canllawiau: Llyfr Gweithgaredd Rhan 1, tudalennau 11 - 13.

Lefel B

Deunyddiau: Cylchlythyrau lleol, papurau, a llythyrau wedi'u derbyn drwy'r post (e.e. gwybodaeth ymgeiswyr etholiad, gwybodaeth ailgylchu), pamffledi gwybodaeth, lluniau neu erthyglau o'r rhyngwyd.

Trafodwch newyddion lleol neu ddigwyddiadau buan gan ddefnyddio'r llenyddiaeth lleol fel ciw.

- Pethau i feddwl amdanynt...**
- Unrhyw newyddion lleol a sut y gall cael effaith ar eich cymuned
 - Newidiadau lleol sydd am ddigwydd
 - Polisiau lleol fel ailgylchu, parcio, gwarchod y gymdogaeth

Eich Syniadau

Sesiwn 5: BWYD

Rhan 1



Trafodwch diwrnod, mis, blwyddyn, tymor, tywydd, ac amser **(5 munud)**.

Trafodwch ddigwyddiad diweddar neu rywbeth cyfoes yn y newyddion **(5 munud)**.

Prif Weithgaredd: Bwyd **(20 munud)**.



Lefel A

Deunyddiau: Eitemau bwyd o'r cwpwrdd/oergell (e.e. ffrwythau, llysiau, melysion, sbeisys, perlyisiau), plat, cyllyll a ffyr, napcynau (opsiynol).

Defnyddiwch eitemau bwyd o'ch cartref, neu prynwch fwydydd sydd yn newydd i chi a thrafodwch wrth flasau.

Pethau i feddwl amdanynt...

- Blas, teimlad, arogl
- Dyfalwch o ba wlad maent yn dod
- Pa un yw eich ffefryn? Oes yna rai nad ydych yn hoffi?
- Ydi bwyd a'r ffordd yr ydym yn meddwl am fwyd wedi newid dros y blynyddoedd (e.e. dogni amser rhyfel, gor-brynu diweddar)



Lefel B

Deunyddiau: Cardiau yn dangos eitemau bwyd (Llyfr Gweithgaredd Rhan 1, tudalennau 14 - 17) neu eitemau bwyd (opsiynol).

Gosodwch y cardiau bwyd neu'r eitemau bwyd (neu gymysgedd o'r ddau os dymunwch) ar fwrdd. Meddylwch am ffyrdd i drefnu'r cynhwysion mewn grwpiau i greu gwahanol prydau bwyd. Faint o rai brydau gwahanol fedrwrch chi eu greu?



Awgrymiadau...

- Grwpiau bwyd (h.y. llysiau, cig, ffrwythau)
- Prydau bwyd (h.y. eitem brechwast yw hwn?)
- Lliw, teimlad neu siap, iach neu beidio?
- Cynhwysion ar gyfer pryd bwyd penodol (e.e. blawd, siwgr, wyau i wneud crempogau)

Canllawiau: Llyfr Gweithgaredd Rhan 1, tudalennau 14 - 17.

Eich Syniadau

Sesiwn 6: BWYD

Rhan 2



Trafodwch diwrnod, mis, blwyddyn, tymor, tywydd, ac amser **(5 munud)**.

Trafodwch ddigwyddiad diweddar neu rywbeth cyfoes yn y newyddion **(5 munud)**.

Prif Weithgaredd: Categoriâu Bwyd a Bwydydd y Byd **(20 munud)**.

Lefel A

Deunyddiau: Lluniau 'Bwydydd y Byd' (Llyfr Gweithgaredd Rhan 1, tudalennau 19 - 22).

Trafodwch luniau 'Bwydydd y Byd'.

Pethau i feddwl amdanynt

- Ydych chi wedi blasu'r bwydydd a ddangosir?
- Yw eich hoff fwyd wedi newid dros y blynyddoedd?
- Ydych chi'n mwynhau blasu bwydydd newydd?
- Fedrwyd chi ddyfalu beth yw rhai o'r cynhwysion yn y prydau bwyd?
- O ble rydych chi'n meddwl y daw'r bwyd?

Canllawiau: Llyfr Gweithgaredd Rhan 1, tudalennau 19 - 22.

Lefel B

Deunyddiau: Pensil a phapur (opsynol), amserydd (opsynol).

Dewiswch fath o fwyd a cheisiwch weld faint o esiamplau medrwyd feddwl amdanynt.

Gallwch ddefnyddio amserydd i wneud y gem yn fwy heriol.

Awgrymiadau...

- Cawl
- Llysiau
- Bwydydd lliw (e.e. gwyrdd, oren)
- Pysgod
- Bwydydd yn cychwyn gyda llythrennau penodol (e.e. B – byr gyr, banana, bisgedi ayyb.)

Eich Syniadau

Sesiwn 7: BOD YN GREADIGOL

Rhan 1



Trafodwch diwrnod, mis, blwyddyn, tymor, tywydd, ac amser (5 munud).

Trafodwch ddigwyddiad diweddar neu rywbeth cyfoes yn y newyddion (5 munud).

Prif Weithgaredd: Bod yn Greadigol (20 munud).



Lefel A a Lefel B

Treuliwch y sesiwn yn gwneud gweithgareddau creadigol.

Efallai y byddwch eisiau ystyried rhai o'r gweithgareddau isod yn dibynnu ar ba ddeunyddiau sydd gennych wrth law, neu ba weithgareddau yr ydych chi a'ch perthynas yn hoffi...



- Pobi, addurno teisenni, coginio
- Gweu, gwio, brodwaith, pwythi croes
- Garddio (plannu, basgedi hongian, gerddi perlysiâu, bocsys ffenestr, darn llysiâu)
- Peintio, tynu llun (papur, cyfnas, pot, platiau ayyb.)
- Gwneud cardiau, Cerddoriaeth, Canu



neu defnyddiwch unrhyw syniadau eich hun!

Eich Syniadau

Sesiwn 8: BOD YN GREADIGOL

Rhan 2



Trafodwch diwrnod, mis, blwyddyn, tymor, tywydd, ac amser (5 munud).

Trafodwch ddigwyddiad diweddar neu rywbeth cyfoes yn y newyddion (5 munud).

Prif Weithgaredd: Bod yn Greadigol (20 munud).



Lefel A a Lefel B

Parhewch gyda'r gweithgaredd Bod yn Greadigol chychwynnoch yn sesiwn 7 neu ddewiswch un arall o'r rhester isod.

- Creu fram ffotograff, ffotograffu, collage ffotograffau
- Cerddi, storiâu byr
- Trefnu blodau
- Creu modelau (clai, plastisin)
- Cwilt clytwaith
- Dawnsio

Eich Syniadau

Sesiwn 9: GEMAU RHIF

Rhan 1



Trafodwch diwrnod, mis, blwyddyn, tymor, tywydd, ac amser (5 munud).

Trafodwch ddigwyddiad diweddar neu rywbeth cyfoes yn y newyddion (5 munud).

Prif Weithgaredd: Gemau Rhif (20 munud).



Lefel A

Deunyddiau: Gweithgaredd Paru Prisiau (Llyfr Gweithgaredd Rhan 1, tudalennau 23 - 25), pensil.

Parwch yr eitemau i'r prisiau â roddir. Gallwch gasglu eitemau o'r tŷ a dyfalu eu prisiau, neu eu trefnu o'r lleiaf i'r mwyaf costus



Pethau i feddwl amdanynt...

- Faint fyddech chi'n fodlon talu am bob eitem?
- Ydych chi'n meddwl fod pris yr eitemau yma yn wahanol i 20, 40, neu 50 mlynedd yn ol?

Canllawiau: Llyfr Gweithgaredd Rhan 1, tudalennau 23 - 25.



Lefel B

Deunyddiau: Pecyn o gardiau (Pecyn Cymorth iCST), dominos (Pecyn Cymorth iCST) neu unrhyw gêm rhif arall sydd gennych (gwelwch restr isod).

Chwaraewch gemau rhif sy'n gofyn i chi ddefnyddio ac adnabod rhifau. Chwaraewch gyda'ch gilydd neu yn erbyn eich gilydd.

Awgrymiadau...

- Gemau cardiau e.g. Snap!, Pontoon
- Uwch neu is (dyfalwch os fydd y cerdyn nesaf yn y pecyn yn uwch neu is)
- Bingo
- Dominoes

Eich Syniadau

Sesiwn 10: GEMAU RHIF

Rhan 2



Trafodwch diwrnod, mis, blwyddyn, tymor, tywydd, ac amser (5 munud).

Trafodwch ddigwyddiad diweddar neu rywbeth cyfoes yn y newyddion (5 munud).

Prif Weithgaredd: Gemau Rhif (20 munud).



Lefel A

Deunyddiau: Pecyn o gardiau (Pecyn Cymorth iCST), dominos (Pecyn Cymorth iCST), neu unrhyw gêm rhif sydd gennych, pensil a phapur (opsiynol).

Meddyliwch am gemau sy'n gofyn i chi ddefnyddio ac adnabod rhifau. Chwaraewch gyda'ch gilydd neu yn erbyn eich gilydd.



Awgrymiadau...

- Ludo
- Connect 4
- Yahtzee
- Noughts and Crosses



Neu...

Dyfalwch faint o eitemau sydd mewn cynhwysydd e.e. siocledi mewn bocs, darnau arian mewn jar, cyfrwch i weld pwy oedd agosaf.

Lefel B

Deunyddiau: Dotiau a bylchau (Llyfr Gweithgaredd Rhan 1, tudalennau 26 - 27). Chwaraewch y gêm dotiau a bylchau a ddarparwyd

Canllawiau: Llyfr Gweithgaredd Rhan 1, tudalennau 26 - 27.

Eich Syniadau

Sesiwn 11: GEMAU CWIS

Rhan 1



Trafodwch diwrnod, mis, blwyddyn, tymor, tywydd, ac amser **(5 munud)**.

Trafodwch ddigwyddiad diweddar neu rywbeth cyfoes yn y newyddion **(5 munud)**.

Prif Weithgaredd: Cwisiau a Gemau **(20 munud)**.

Lefel A

Deunyddiau: Cwis Hen Gredoau (Llyfr Gweithgaredd Rhan 1, tudalennau 28 - 30).

Trafodwch yr hen gredoau ar y taflen weithgaredd.

Pethau i feddwl amdanynt...

- Ydych chi'n meddwl y gallai rhai o'r hen gredoau fod yn wir?
- Ydych wedi clywed y credoau hyn o'r blaen? Neu
- Ydych chi wedi adrodd rhai o'r gredoau yma i'ch teulu?
- Pam rydych chi'n credu bod hen gredoau'n bodoli?

Canllawiau: Llyfr Gweithgaredd Rhan 1, tudalennau 28 - 30.

Lefel B

Deunyddiau: Cwis Gwybodaeth Gyffredinol (Llyfr Gweithgaredd Rhan 1, tudalennau 31 - 36), pensil, papur (opsynol).


Ceisiwch ddyfalu'r atebion i' gwestiynau Cwis Gwybodaeth Cyffredinol. Os dymunwch, gallwch farcio'ch atebion ar darn o babur neu ar y daflen weithgaredd. **Peidiwch a poeni am eich sgôr, hwyl yw pwrpas y gweithgaredd!**

Canllawiau: Llyfr Gweithgaredd Rhan 1, tudalennau 28, 31 - 36.

Eich Syniadau

Sesiwn 12: GEMAU CWIS

Rhan 2



Trafodwch diwrnod, mis, blwyddyn, tymor, tywydd, ac amser **(5 munud)**.

Trafodwch ddigwyddiad diweddar neu rywbeth cyfoes yn y newyddion **(5 munud)**.

Prif Weithgaredd: Cwisiau a Gemau **(20 munud)**.

Lefel A

Deunyddiau: Pensil a phapur (opsynol), gemau bwrdd (opsynol). Chwaraewch gêm rmae'r ddau ohonoch yn ei fwynhau.

Awgrymiadau...

- Dyfalwch beth ydw i'n ei feimio, yn cael ei adnabod fel charades.
- Dyfalwch beth yw fy llun, yn cael ei adnabod fel Pictionary.
- Gemau bwrdd.

Lefel B

Deunyddiau: Cwis Cerddorol (Llyfr Gweithgaredd Rhan 1, tudalennau 37 - 40), pensil.

Llenwch y bylchau i gwblhau geiriau'r gan, a cheisiwch paru'r artistiaid gyda'u can.

